ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 23ain Tachwedd 2004, am 10.30am
Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Geoff White (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Mike Jones	CBS Castell-nedd Port Talbot
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro / Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-orllewin Cymru)
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Russell Owens	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Tony Yates	SLR Consulting Ltd.

1. **Ymddiheuriadau**

Philip Marks	CYLCH
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Hugh Towns	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ruth Henderson	Dinas a Sir Abertawe
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Karin Black	Asiantaeth yr Amgylchedd

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar 1af Tachwedd 2004**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. **Ymagwedd Ranbarthol tuag at Reoli Gwastraff**

- **Mater 'cronni' targedau**

Rhoddodd Tony Yates gyflwyniad byr ynglŷn â'r prif faterion sy'n wynebu'r rhanbarth, a nodwyd yn Adroddiad y Datganiad Sefyllfa "*Ymagwedd Ranbarthol tuag at Reoli Gwastraff Bwrdeistrefol*".

- Pwysleisiwyd y gallai fod manteision sylweddol yn sgîl derbyn ymagwedd Ranbarthol tuag at gyflawni gofynion y system Lwfans Claddu Sbwriel yn Ne-orllewin Cymru; ond
- Nid yw'r ddeddfwriaeth gyfredol yn caniatáu ar gyfer 'cronni' targedau.

Yna gwahoddodd GW Russell Owens i roi crynodeb i'r Grŵp o safbwynt LlCC ar fater 'cronni':

- Cadarnhawyd bod Rheoliadau Cynllun Lwfans Claddu Sbwriel (Cymru) 2004 yn berthnasol i awdurdodau lleol unigol ac nad oes mecanwaith dan y rheoliadau hynny ar gyfer 'cronni'

lwfansau. Mae'r dyletswyddau cyfreithiol yn syrthio ar awdurdodau lleol unigol ac ni ellir cyfuno'r rhain ar lefel ranbarthol;
- Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y ffordd orau o gyflawni'r targedau ym mis Tachwedd 2002. Gwrthodwyd 'cronni'r' targedau;
- Mae'n ofynnol i bob awdurdod Gwaredu a Chasglu Gwastraff gyflawni'r targedau, monitro a delio ag unrhyw gosbau a gafwyd;
- Ni fydd Rheoliadau Cynllun Lwfans Claddu Sbwriel (Cymru) 2004 yn cael eu diwygio. Ond bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei hadolygu yn 2007; a
- Bydd LlCC yn cefnogi cronni adnoddau a chontractau.

Nodwyd y pwyntiau canlynol o'r drafodaeth:

- Byddai safbwynt mor anhyblyg yn arwain at le dros ben o fewn y Rhanbarth (h.y. y posibilrwydd o adeiladu 5 neu 6 cyfleuster is-ranbarthol). Ydy hyn yn ddymunol?;
- Mae safbwynt LlCC yn difetha'r tebygolrwydd o unrhyw gynnydd pellach ar adroddiad y Datganiad Sefyllfa ar waith rhanbarthol;
- Mae angen i LCC nodi a ellir ystyried adroddiad y Datganiad Sefyllfa yn y dyfodol ai peidio; ac
- Er mwyn i awdurdodau unigol gyrraedd eu targedau, mae angen dechrau cynllunio ar gyfer yr isadeiledd nawr.

Cytunwyd ar y canlynol:

- Mae angen rhoi gwybod i'r Aelodau am oblygiadau safbwynt anhyblyg LlCC;
- Adroddiad cynnydd i'w gynhyrchu ar gyfer yr Aelodau yn amlinellu'r 'sefyllfa' gyfredol, yr opsiynau sydd ar gael i'r Rhanbarth ac argymhelliad i gychwyn lobïo gwleidyddol. **Gweithredu**: GW;
- Adroddiad drafft i'w ddosbarthu ar gyfer sylwadau erbyn dydd Gwener 24ain. **Gweithredu**: GW. Dylid derbyn unrhyw sylwadau erbyn canol dydd ar ddydd Gwener 26ain. **Gweithredu**: Pawb.

4. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 10.30am ar ddydd Gwener 28ain Ionawr.

5. Unrhyw fater arall

Adroddodd CP fod SLR wedi gwneud llawer o waith i'r Rhanbarth a bydd y bil ychwanegol yn cael ei ddosbarthu i'r rheiny sy'n berthnasol yn fuan.

Adroddodd SM ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar yr Ymchwil Mapio GIS. Mae tîm GIS LlCC yn Aberystwyth wedi mynegi diddordeb mewn ymgymryd â'r ymchwil, er nad yw'r penderfyniad terfynol wedi cael ei gadarnhau eto. **Gweithredu**: SM i roi gwybod i'r Grŵp am unrhyw benderfyniad.